Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Penderfyniad y Gweinidog yn dilyn yr 'Adolygiad pellach o'r eithriadau i'r rheoliadau ynghylch uchafswm hyd cychod pysgota yn y parth 0-6mf'.** |
| **DYDDIAD** | **11 Chwefror 2014** |
| **GAN** | **Alun Davies AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd** |

Yn fy Natganiadau Ysgrifenedig dyddiedig 18 Gorffennaf a 9 Medi 2013, cyhoeddais fy mwriad i ymgynghori ymhellach ar y mater hwn a dod i benderfyniad arno ddechrau'r flwyddyn hon. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 1 Rhagfyr 2013, a chafwyd 914 o ymatebion iddo.

Rwyf wedi rhoi ystyriaeth ddwys i'r amrywiaeth eang o faterion a godwyd yn yr ymatebion hynny, yn enwedig o ran sicrhau cydraddoldeb wrth reoleiddio cychod pysgota sy'n gweithredu yng Nghymru, ac rwyf wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gael gwared ar yr Hawliau Mynediad Hanesyddol yn y dyfroedd sydd 0-6mf o'r lan cyn gynted ag y bo modd.

Fe wnaf i gyflwyno'r Gorchymyn Drafft angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd. Yna, bydd angen hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd ohono yn unol â'r Gyfarwyddeb Safonau Technegol (Cyfarwyddeb 98/34/CE), a bydd angen cynnal cyfnod segur o dri mis cyn y gall y Gorchymyn ddod i rym.